COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

S Easterbrook
RM James
A R Berrow
P W Jenkins
O Clatworthy

Presennol – O Bell

R Williams
J Llewellyn-Hopkins
J E Pratt
RJ Collins
H T Bennett
S J Bletsoe

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C Davies

Datganiadau o Ddiddordeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Kirsty Evans | Senior Licensing Officer |
| Will Lane | Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Andrea Lee | Swyddog Cyfreithiol |

## 48. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Colin Davies. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 12 Chwefror 2026 |

## 49. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 12 Chwefror 2026 |

## 50. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 12 Chwefror 2026 | |

## 51. Cyfundrefn Profi Tacsis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad, a'i bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori â'r fasnach dacsis a hurio preifat, Canolfan Brofi Tŷ Thomas a'r Adran Trafnidiaeth Ysgol ar y cynnig i ganiatáu i dacsis a cherbydau hurio preifat gael profion MOT a chydymffurfiaeth ychwanegol mewn unrhyw orsaf brofi MOT a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) neu i gadw'r gyfundrefn bresennol o brofi mewnol.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi manteision ac anfanteision y ddau ddull a manylwyd ar y rhain ym mharagraffau 3.3 a 3.4 yn adroddiad, yn y drefn honno.<br><br>Felly, gofynnwyd am gymeradwyaeth gan aelodau i symud ymlaen â'r opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor i ymgynghori â'r fasnach dacsis a hurio preifat ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Brofi Tŷ Thomas a'r Adran Trafnidiaeth Ysgol. |

Yn dilyn ymgynghoriad o'r fath, bydd adroddiad sy'n nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl er mwyn ei ystyried a gwneud penderfyniad.

Gofynnodd yr Aelodau nifer sylweddol o gwestiynau am yr adroddiad, gan gynnwys y canlynol:-

- Pwy sy'n ymgymryd â gwiriadau cydymffurfiaeth ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat ar hyn o bryd? h.y. Swyddogion Trwyddedu Tŷ Thomas neu CBSP?
- A yw'r darparwr presennol yn addas at y diben? Hynny yw, a yw'n cael ei ystyried yn foddhaol o safbwynt capasiti profi cerbydau o ran cynnal a chadw tacsis, o ystyried ei fod yn fenter ar y cyd sydd hefyd yn cwmpasu profion MOT ar gyfer cerbydau Heddlu De Cymru?
- A yw unrhyw hapwiriadau'n cael eu gwneud ar gerbydau tacsi ar y ffordd, ar wahân i'r profion MOT yn unig, er mwyn sicrhau bod y cerbydau hyn yn addas i'r ffordd fawr ar unrhyw adeg benodol?
- Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod Tŷ Thomas yn cynhyrchu tua £46k o incwm refeniw o wneud profion MOT ar y cerbydau uchod, ond nid oes sôn am y gost i'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r incwm hwnnw?
- Efallai y dylai'r Pwyllgor fod wedi cael mwy o fewnbwn i'r ymgynghoriad, er enghraifft, pa gwestiynau a ofynnwyd fel rhan ohono a pha ffurf a gymerodd yr ymgynghoriad, ac ati.
- Nododd aelod, er bod Tŷ Thomas yn cynnal profion MOT ar gyfer y Cyngor a'r Heddlu, nad oedd yn orfodol iddynt wneud unrhyw waith gofynnol sy'n codi o ganlyniad i'r MOT i sicrhau bod unrhyw gerbydau o'r fath yn addas i'r ffordd fawr, a oedd yn un o anfanteision y gwasanaeth.
- Nododd yr Aelodau, gan mai dim ond dau Swyddog Gorfodi Trwyddedu oedd yn gweithio i CBSP, nad oedd digon o gapasiti i gynnal hapwiriadau ar dacsis i sicrhau bod yswiriant ac MOT dilys ganddynt a'u bod yn gyffredinol yn y cyflwr y dylai cerbydau fod ynddo i gael eu hystyried yn addas i'r ffordd fawr ar unrhyw adeg benodol.

Yn dilyn y ddadl ar yr eitem hon, cynhaliodd yr Aelodau bleidlais ac, yn unfrydol,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno i ymgynghori â'r fasnach dacsis a hurio preifat, yr Adran Trafnidiaeth Ysgol a Thŷ Thomas ar yr opsiynau canlynol o ran profi tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

i) Cadw'r gyfundrefn brofi fewnol bresennol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion gael Tystysgrif MOT gan Gyfleuster Cynnal a Chadw Tŷ Thomas ynghyd â gwiriad cydymffurfiaeth tacsi

| | |
|---|---|
| | ychwanegol.<br><br>ii) Caniatáu i berchnogion gael Tystysgrif MOT o unrhyw orsaf brofi MOT a gymeradwywyd gan DVSA yn y Fwrdeistref Sirol, a bod yr un orsaf brofi yn cynnal gwiriad cydymffurfiaeth tacsi ychwanegol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 12 Chwefror 2026 |

## 52. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 12 Chwefror 2026 |

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:45